CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND



Pawb a'i Le

# Canllawiau a Rhestr Wirio Tir ac Adeiladu

Ar gyfer prosiectau sy'n gwneud cais am £20,000 neu fwy

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rhestr wirio ac ystyriaethau | 4 |
| Sut y byddwn ni'n arolygu gwaith adeiladu | 12 |
| Hawlio eich arian ar gyfer gwaith tir neu adeiladu | 12 |
| Atodiad A | 13 |
| Atodiad B | 17 |

# Cyflwyniad

Rydyn ni eisiau helpu mwy o gymunedau yng Nghymru i weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais am grant o £20,000 neu fwy sy'n cynnwys prynu, adnewyddu neu ddatblygu tir ac adeiladau neu waith arall sy'n gysylltiedig ag adeiladu.

**Dylech hefyd ddarllen y canllawiau ar y dudalen we Pawb a'i Le - grantiau mawr a grantiau canolig.**

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys:

- **Rhestr wirio o wybodaeth sydd angen i ni ei gweld ar gyfer prosiectau tir neu adeiladu**. Dylech gwblhau hwn os ydym wedi ni gofyn i chi gyflwyno cais am grant.
- **Cyngor ar ystyriaethau pwysig ar gyfer prosiectau tir neu adeiladau**, i wneud yn siŵr eich bod chi'n barod i gyflawni eich prosiect.

## Cefnogaeth gyda'ch ceisiadau tir ac adeiladau

Cysylltwch â ni os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes rhywbeth yn y canllawiau hyn nad yw'n glir. Gallwch ein ffonio ar **0300 123 0735** neu anfonwch e-bost at pawbaile@cronfagymunedolylg.org.uk.

Os ydych chi eisoes wedi trafod eich cynnig gyda ni, gallwch gysylltu â'ch Swyddog Ariannu am gymorth.

## Yr hyn y gallwn ei ariannu

Gallwn ariannu costau sy'n cynnwys:

- gwella tir ac adeiladau
- adeiladu
- ffïoedd proffesiynol
- arolygon.

Gallwn ariannu prosiectau lle mai ni yw'r unig ariannwr, neu lle mae mwy nag un ariannwr yn cymryd rhan.

Dylech ddangos cefnogaeth gymunedol ehangach i'ch syniad a bod eich prosiect wedi'i gynllunio'n dda.

# Rhestr wirio ac ystyriaethau

**Enw'r prosiect**

**Enw a chyfeiriad y sefydliad**

**Enw llawn y prif gyswllt**

**Rhif ffôn y prif gyswllt**

**Cyfeiriad e-bost y prif gyswllt**

**Cyfeiriad safle'r prosiect**

**Cod post ar gyfer safle'r prosiect**

**Awdurdod Lleol safle'r prosiect**

Dylech adolygu pob adran o'r rhestr wirio. Rydym ni'n deall bod prosiectau i gyd yn wahanol, felly bydd y wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani yn dibynnu ar faint a math eich prosiect. Os ydych chi'n gwneud cais am £100,000 neu fwy, byddwn yn gofyn am wybodaeth fanylach.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau adeiladu yng Nghymru. Os oes gennych chi unrhyw bryderon am hyn, gofynnwch am gyngor cyfreithiol annibynnol.

## 1. Arfarniad opsiynau

☐ **Anfonwch gopi o'ch arfarniad opsiynau atom ni.**

Disgrifiad yw hwn o'r opsiynau rydych chi wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni canlyniadau'r prosiect.

**Dylai eich arfarniad opsiynau gynnwys:**

- disgrifiad o'r sefyllfa bresennol a'r dewisiadau amgen yr ydych wedi'u hystyried
- sut y bydd eich cynigion yn helpu cyflawni eich gweithgareddau arfaethedig
- sut rydych wedi ymgysylltu â'ch aelodau, defnyddwyr a'r gymuned leol
- y cyfyngiadau a'r cyfleoedd yr ydych yn eu hwynebu gyda phob opsiwn
- amcangyfrif o gostau pob opsiwn
- risgiau pob opsiwn
- cynllun cyflawni ar gyfer eich opsiwn dewisol.

## 2. Cadarnhad o brydles neu berchenogaeth

Mae gennym delerau ac amodau penodol y mae'n rhaid i chi eu bodloni os ydych chi'n prynu, adnewyddu neu ddatblygu tir neu adeiladau gyda'n cyllid. Maen nhw'n trafod eich perchnogaeth ar y tir neu adeiladau a'r diogelwch y gallwn ei gymryd dros hynny. Efallai y bydd angen cymorth arnoch gan weithiwr cyfreithiol proffesiynol i sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion.

### Os oes gennych chi lesddaliad

☐ **Anfonwch gopi o'r brydles bresennol neu ddrafft atom.**

**Ein gofynion les yw:**

Ar gyfer dyfarniadau rhwng £20,000 a £500,000 mae angen prydles o 5 mlynedd o leiaf (ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau) a dylai fodloni'r canlynol:

1. ni ddylai gynnwys unrhyw hawliau terfynu cynnar ar gyfer y naill barti neu'r llall yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd
2. dylai fod yn drosglwyddadwy
3. ni ddylai ganiatáu i'r landlord ddychwelyd y tir a'r adeiladau'n awtomatig os bydd eich sefydliad yn mynd yn fethdalwr.

### Os oes gennych chi berchnogaeth rhydd-ddaliadol

☐ **Anfonwch gopi o'ch dogfen deitl y Gofrestrfa Tir.**

### Os ydych chi'n bwriadu prynu buddiant rhydd-ddaliad mewn tir neu adeiladau

**Mae'n rhaid i chi anfon y canlynol atom ni:**

☐ **Disgrifiad o'r tir neu'r adeiladau yr ydych chi am eu prynu**

☐ **Adroddiad syrfëwr annibynnol ar y tir neu'r adeiladau, gan gynnwys:**

1. ei gyflwr
2. ei brisiad marchnad agored presennol at ddibenion y prosiect hwn. Dylai'r prisiad fod yn llai na 6 mis oed (gydag unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd wedi'u nodi)
3. iii. p'un a yw'n addas at y diben arfaethedig

☐ **Manylion unrhyw broblemau posibl** megis mynediad i'r safle, halogiad neu hawliau tramwy.

☐ **Tystiolaeth bod Penawdau Telerau ar gyfer y pryniant wedi'u cytuno arnynt.**
Ni ddylai taliad fod wedi wedi'i wneud tuag at y pris prynu.

☐ **Amserlen ar gyfer prynu**

### Sicrwydd dros dir ac adeiladau

Os ydym ni'n cynnig grant o £100,000 neu fwy i chi ar gyfer tir neu adeiladau, bydd angen i ni gymryd sicrwydd drostynt.

Bydd y sicrwydd hwn ar ffurf gweithred sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r tir neu'r adeiladau i'r defnydd y cytunwyd arno pan fyddwn yn dyfarnu'r grant. Mae hefyd yn cyfyngu ar eich gallu i waredu'r tir neu'r adeiladau oni bai ein bod ni'n cytuno iddo yn gyntaf.

Os ydym ni'n cynnig grant i chi, bydd angen i chi gyfarwyddo cyfreithwyr i weithio gyda'n hadran gyfreithiol i sicrhau bod y sicrwydd yn ei le. Ni allwn dalu mwy na 5% o unrhyw grant a ddyfernir hyd nes y bydd y materion cyfreithiol hyn yn cael eu datrys.

### Atebolrwydd asedau a chyfnodau monitro

Bydd y diogelwch yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf ar ôl cwblhau eich prosiect cyfalaf, sy'n cael ei alw yn 'gwblhau ymarferol'. Rydym ni'n galw hwn yn 'gyfnod atebolrwydd asedau'. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi i sicrhau bod y tir neu'r adeiladau'n cael eu defnyddio fel y cytunwyd pan gawsoch chi eich arian.

## 3. Gwybodaeth ddylunio – lluniadau ac arolygon

Bydd yr atebion ar y rhestr ganlynol yn ein helpu i ddeall eich cynigion.

### Os yw'n berthnasol, anfonwch y canlynol atom ni:

☐ **Cynllun safle presennol** sy'n dangos amlinelliad o'r adeilad a'r safle, yr eiddo cyfagos a llwybrau mynediad ar raddfa briodol.

☐ **Ffotograffau lliw o'r safle neu'r adeiladau presennol** (y tu mewn a'r tu allan).

☐ **Gwybodaeth arolwg a wnaed neu a gynlluniwyd** (er enghraifft, yn cwmpasu'r cynllun presennol, neu arolygon asbestos, strwythurol, neu arolygon ecolegol).

☐ **Cynlluniau llawr arfaethedig neu luniadau trefniant cyffredinol** (gan gynnwys adrannau a gweddluniau). Dylai'r rhain nodi'r arwynebedd llawr mewnol gros (GIFA) mewn metrau sgwâr (m2) ar raddfa briodol.

☐ **Manyleb amlinellol o'r gwaith arfaethedig.** Mae hon yn ddogfen sy'n disgrifio'r deunyddiau a'r gwaith sydd eu hangen.

☐ **Rhestr o unrhyw ddodrefn neu offer** sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni eich prosiect. Dylai hyn gynnwys offer arbenigol, yn ogystal ag eitemau cyffredin fel desgiau neu gadeiriau.

### Darparu cynllun mynediad

☐ **Anfonwch gynllun mynediad atom** sy'n darparu rhagor o fanylion am sut y bydd eich prosiect yn gwella mynediad i bawb.

Mae gan **Atodiad A** ragor o ganllawiau am yr hyn y gall eich cynllun mynediad ei gynnwys.

Rydym eisiau cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo dyluniad cynhwysol – hynny yw, llefydd a mannau sydd wedi'u dylunio i fod yn hygyrch i bawb. Bydd creu cynllun mynediad ar gyfer y tir neu adeiladau perthnasol yn eich helpu i'w gwneud yn agored i bawb.

### Darparu cynllun arbed carbon

☐ **Anfonwch gynllun arbed carbon atom** i ddweud wrthym sut y bydd eich prosiect yn helpu mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae **Atodiad B** yn cynnwys mwy o arweiniad ar yr hyn y gallai eich cynllun arbed carbon ei gynnwys.

Rydym ni am gefnogi prosiectau a fydd yn helpu arbed ynni a hyrwyddo byw'n gynaliadwy.

## 4. Crynodeb o gostau prosiectau

☐ **Anfonwch eich amcangyfrif cost neu ddyfynbrisiau atom ni**

☐ **Anfonwch grynodeb o'ch costau atom ni gan ddefnyddio'r tablau a ddarperir**

### Sut i gyfrifo eich costau

Os ydych chi'n ymgeisio am £100,000 neu'n fwy, dylid paratoi eich costau gan weithiwr adeiladu proffesiynol cymwys fel syrfëwr meintiau.

Lle bo'n bosibl, cyfrifwch y gost fesul metr sgwâr (£/m2) o'r adeiladau neu'r prosiect tirwedd arfaethedig.

| Cost fesul metr sgwâr, os yw'n hysbys (£/m2) | |
|---|---|

Rydym ni'n gwybod bod y costau ar gyfer prosiectau tir ac adeiladau yn cynyddu'n gyflym iawn ar hyn o bryd. Ceisiwch ystyried chwyddiant wrth gynllunio'ch prosiect. Meddyliwch beth fyddech chi'n ei wneud pe bai costau'n codi y tu hwnt i'r grant rydych chi'n gofyn amdano.

| Eitem cost cyfalaf | Cyfanswm (£) |
|---|---|
| a. Prynu tir a/neu adeilad | |
| b. Costau adeiladu gan gynnwys unrhyw gostau rhagarweiniol | |
| c. Dodrefn, ffitiadau ac offer | |
| ch. Ffïoedd proffesiynol (peidiwch â chynnwys costau a gafwyd eisoes) | |
| d. Costau eraill fel ffïoedd cyfreithiol, gweinyddu, statudol a/neu ffïoedd arolwg. (Nodwch beth yw'r rhain mewn nodyn ar wahân) | |
| f. Chwyddiant | |
| h. Costau wrth gefn (10% o gyfanswm cost cyfalaf, ac eithrio gwerth chwyddiant) | |
| i. TAW anadferadwy (ceisiwch gyngor proffesiynol os oes angen) | |
| **Cyfanswm cost cyfalaf mewn punnoedd sterling** | |

## 5. Hawliau, cymeradwyaethau a chaniatadau eraill

☐ **Anfonwch fanylion unrhyw ganiatâd rydych chi ei angen ar gyfer eich prosiect**

Os nad oes gennych chi'n caniatâd rydych chi ei angen eto, dywedwch wrthym ni pa gynnydd rydych chi wedi'i wneud.

**Dylai'r rhan fwyaf o brosiectau ystyried:**

- Caniatâd cynllunio (gan gynnwys Caniatâd Adeilad Rhestredig)
- Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu
- Unrhyw gydsyniadau statudol eraill megis gan gwmnïau cyfleustodau neu'r Amgylchedd Asiantaeth
- Statws TAW. Dylech geisio cyngor proffesiynol os oes angen.

## 6. Penodi gweithwyr proffesiynol i gefnogi'ch prosiect

☐ **Anfonwch fanylion unrhyw weithwyr proffesiynol rydych chi'n eu defnyddio i gefnogi eich gwaith**

Efallai yr hoffech chi ddefnyddio pensaer, pensaer tirwedd, rheolwr prosiect, neu beiriannydd sifil neu strwythurol i'ch helpu i ddatblygu eich cynigion. Gyda'i gilydd, gelwir y rhain yn aml yn dîm proffesiynol neu dîm dylunio.

**Ydych chi angen cefnogaeth broffesiynol?**

- **Mae'n rhaid i chi benodi gweithiwr adeiladu arweiniol os ydych chi'n gwneud cais am £100,000 neu'n fwy** ar gyfer eich prosiect tir neu adeiladau.
- Byddwn yn cymryd ymagwedd gymesur ar gyfer prosiectau llai.
- Bydd y math o gymorth proffesiynol sydd ei angen arnoch chi'n amrywio yn seiliedig ar faint a math eich prosiect.

## 7. Iechyd a Diogelwch

☐ **Cadarnhewch y byddwch chi'n cadw at ddyletswyddau'r cleient o fewn y Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (2015)** a dywedwch wrthym am unrhyw gefnogaeth broffesiynol yr ydych wedi'i defnyddio i'ch helpu.

Mae'r Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (2015) yn rhoi cyfrifoldeb ar gleientiaid, dylunwyr a chontractwyr sydd ynghlwm â phrosiectau adeiladu i sicrhau bod prosesau iechyd a diogelwch digonol ar waith.

## 8. Caffael

Wrth ymgysylltu â gweithwyr adeiladu proffesiynol, contractwyr neu gyflenwyr mae'n rhaid i chi ddefnyddio proses gaffael briodol. Rhaid iddo ddilyn polisi caffael eich sefydliad neu arfer da sy'n cael ei dderbyn yn y sector cyhoeddus neu elusennol. Dylai fod yn glir ac yn deg.

Os oes gennych chi grant gan unrhyw gyrff cyhoeddus arall ar gyfer y prosiect hwn, bydd angen i chi sicrhau eich bod hefyd yn bodloni eu gofynion cyfreithiol nhw cyn gwneud cais i ni.

**Dylech wneud y canlynol:**

☐ **Cael o leiaf 3 dyfynbris** ar gyfer ffïoedd proffesiynol o £20,000 neu'n fwy.

Rydym ni'n argymell eich bod chi'n defnyddio cyflenwyr a chwmnïau adeiladu sefydledig neu ddibynadwy lle bo hynny'n bosibl.

☐ **Rhoi 3 dyfynbris diweddar i ni gan gontractwyr sefydledig** ar gyfer gwaith adeiladu rhwng £20,000 a £100,000.

☐ **Cynnal proses dendro gystadleuol** i gyrraedd y costau adeiladu ar gyfer eich prosiect ar gyfer gwaith adeiladu sy'n debygol o fod yn uwch na £100,000.

Os byddwch chi'n penderfynu peidio â derbyn y dyfynbris neu'r tendr isaf a dderbyniwyd, dylech hefyd ddweud pam wrthym ni.

**Efallai y byddwn ni hefyd yn gofyn i chi:**

☐ **Anfon adroddiad atom ar eich caffaeliad gan aelod cymwys o'ch tîm gan gynnwys:**

- dull caffael a gynhaliwyd (er enghraifft, dyfynbrisiau diweddar neu dendrau cystadleuol)
- manylion y math priodol o gontract sydd i'w defnyddio, os yw'n berthnasol
- cynnig isaf ac uchaf, a chyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd
- meini prawf gwerthuso a ddefnyddir i werthuso cynigion (i ddangos tryloywder a thegwch yn y broses a ddefnyddir)
- enw cyflenwr a ffefrir a pris, sy'n dangos os mai'r cynnig hwn oedd yr isaf.

# Sut y byddwn ni'n arolygu gwaith adeiladu

Os byddwch chi'n derbyn grant ar gyfer prosiect adeiladu, byddwn yn archwilio'r gwaith sy'n cael ei wneud. Efallai y byddwn ni'n gwneud hyn ar wahanol adegau, ac yn enwedig pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Mae angen i ni fod yn fodlon ar ansawdd y gwaith. Mae angen i ni hefyd fod yn sicr y bydd y cyfleusterau newydd rydych chi wedi'u creu yn eich galluogi i gyflawni'r canlyniadau a ddisgrifiwyd gennych chi eich cais am grant.

# Hawlio eich arian ar gyfer gwaith tir neu adeiladu

Cyn i'r prosiect tir neu adeiladau ddechrau, gwnewch yn siŵr bod gennych chi gynllun ariannol ar gyfer hyd y prosiect.

Dydyn ni ddim yn talu am waith adeiladu ymlaen llaw - rydym ni'n rhyddhau arian wrth i chi dalu costau yn ystod y prosiect. Rhaid i chi ddangos tystiolaeth o'r costau hyn, yn fwyaf tebygol gydag anfonebau neu dystysgrifau gan eich cynghorwyr proffesiynol.

# Atodiad A

## Y Cynllun Mynediad

## Cyflwyniad i ddyluniad cynhwysol

Rydym am gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo 'dyluniad cynhwysol' ac sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Mae Llywodraeth y DU yn diffinio dyluniad cynhwysol fel 'proses sy'n sicrhau bod pob adeilad, lle a man yn gallu cael eu cyrchu a'u defnyddio'n hawdd ac yn gyfforddus gan bawb'.

Gallwn ariannu prosiectau sy'n cynnwys newid defnydd, addasiadau neu adnewyddu, estyniadau, adeiladau newydd a gwelliannau tirwedd. Mae amgylchedd cynhwysol yn buddio pawb, nid yn unig i allu symud ynddo'n annibynnol, ond hefyd heb rwystrau neu ofnau. Dylai pobl allu defnyddio eu hamgylchedd beth bynnag eu hoedran, anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, diwylliant, amgylchiadau economaidd a boed yn teithio â phlant, ar feic neu'n cario ac yn defnyddio offer.

## Eich cynllun mynediad

Er mwyn helpu gwneud eich prosiect tir neu adeiladau yn gynhwysol, gofynnwn i chi ddatblygu cynllun mynediad ar gyfer y prosiect. Dylai hyn gyd-fynd â'ch cais. Nid oes gennym ni  gynllun templed gan nad oes datrysiad 'un maint i bawb'  ar gyfer yr ystod eang o syniadau rydyn ni'n eu hariannu. Gofynnwn eich bod chi'n datblygu eich cynllun eich hun, ac rydym ni'n disgwyl iddo fod yn gymesur i faint a math eich cynigion.

## Beth ddylai eich cynllun mynediad fynd i'r afael ag ef

Dylai eich cynllun mynediad gynnwys y canlynol, o leiaf:

- asesiad o'r rhwyddineb mynediad a'r defnydd o'ch adeiladau neu dirwedd, ynghyd â manylion y mesurau dylunio penodol yr ydych chi'n eu cynnig
- ymrwymiad polisi i fod yn sefydliad, adeilad neu fan agored cynhwysol.

## Cyngor ar gyfer datblygu eich cynllun mynediad

### Cynnwys pobl yn eich cynllunio o'r dechrau

Mae'n bwysig ceisio cynnwys eich bwrdd, tîm, defnyddwyr ac ymwelwyr wrth feddwl am eich trefniadau mynediad a chynnal archwiliad mynediad. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod ar ddechrau'r broses ddylunio. Gall goresgyn rhwystrau mynediad yn ddiweddarach yn y prosiect arwain at adeilad neu fan agored nad yw'n gynhwysol a gallai fod yn ddrud i'w newid.

## Deall y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau pwysig

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas ehangach. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau rhesymol i gael gwared ar nodweddion ffisegol a allai roi rhywun dan anfantais drwy gyfyngu ar eu mynediad i nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau.

Dylent gymryd un neu'n fwy o'r camau canlynol:

- ei newid fel nad yw'n cael yr effaith honno mwyach
- darparu ffordd resymol o osgoi y nodwedd
- darparu dull rhesymol amgen o sicrhau bod y gwasanaeth ar gael.

Mae Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu (neu'r rheoliadau cyfwerth yn eich gwlad chi) yn hyrwyddo dull i'r dyluniad adeiladu sy'n adlewyrchu anghenion pawb. Mae'n gofyn bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i alluogi pawb i gael mynediad at yr adeilad a defnyddio'r cyfleusterau.

Efallai y bydd gofyn i chi lunio datganiad dylunio a mynediad fel rhan o gais cynllunio. Mae hon yn ddogfen ar wahân i gynllun mynediad.

## Enghreifftiau o nodweddion dylunio hygyrch i'w hystyried

Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau a mannau awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Dull** | Meddyliwch am sut rydych chi'n cyrraedd ac yn gadael eich adeilad neu fan agored.<br>• Ydy lled ac arwynebau llwybr yn addas ar gyfer pob defnyddiwr? Gallai hyn gynnwys bygis babanod, beiciau, sgwteri a defnyddwyr cymorth cerdded.<br>• Ydy'r llwybr yn wastad neu gyda ramp ysgafn, yn gwrthsefyll llithro, wedi'i oleuo'n dda, gydag arwyddion clir (gan gynnwys enw a rhif yr adeilad)? |
| **Parcio** | • A oes mannau parcio wedi'u dylunio, eu marcio a'u harwyddo'n addas ar arwynebau hygyrch, mor agos â phosibl i bob mynedfa hygyrch?<br>• A oes pwynt gollwng wedi'i leoli a'i arwyddo'n briodol? |
| **Mynedfeydd** | • Dylai fod o leiaf un drws mynedfa sy'n hygyrch i bawb. Dylai fod yn wastad neu dylai fod ramp neu grisiau addas pe bai angen, gyda rheiliau llaw wedi'u dylunio'n briodol, drysau awtomatig neu ddrysau â chymorth mewn lliwiau cyferbyniol.<br>• Dylai pennau grisiau alluogi defnyddiwr cadair olwyn i symud yn glir oddi wrth un drws cyn agor yr ail ddrws. |

| | |
|---|---|
| **Toiledau a derbynfeydd** | • Ni ddylai arwynebau llawr rwystro symudiadau. Dylent osgoi dipiau, arwynebau sy'n newid, neu batrymau prysur a all fod yn ddryslyd yn enwedig i'r rhai â dementia.<br>• Meddyliwch am ddarparu systemau gwella clyw, cownteri hygyrch i gadeiriau olwyn is a dolenni drysau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r rhai sydd â deheurwydd llaw cyfyngedig.<br>• Ystyriwch a yw'n bosibl lleihau arwynebau caled sy'n achosi atgyfeiriant sŵn. |
| **Cylchrediad llorweddol neu fertigol** | • Lle bo hynny'n bosibl, dylai ardaloedd uwchben neu o dan y llawr gwaelod fod yn hygyrch.<br>• Dylid darparu dyfais codi a grisiau addas i'r holl loriau uwchben y llawr gwaelod. Mewn adeilad newydd, dylai hwn fod yn lifft teithwyr llawn.<br>• Sicrhewch goridorau sy'n ddigon llydan ag agoriadau drws heb rwystrau.<br>• I helpu wrth lywio, meddyliwch am ddarparu arwyddion eglur wedi'u goleuo'n dda gyda phictogramau sy'n adnabyddus yn gyffredinol, yn benodol wrth bwyntiau penderfynu allweddol (er enghraifft, wrth adael lifft).<br>• Dylech gynnwys lliwiau cyferbyniol ar gyfer waliau a lloriau i helpu'r rhai hynny â namau ar eu golwg. |
| **Cyfleusterau tŷ bach** | • Dylai'r holl amwynderau a rennir gael eu cynllunio fel eu bod nhw'n hygyrch i bawb. Ystyriwch ddefnyddwyr gwahanol y gofod.<br>• Caniatáu ar gyfer darparu toiledau unrhywiol hygyrch i gadeiriau olwyn.<br>• Dylech hefyd ystyried canllawiau'r llywodraeth ynghylch darparu toiledau "changing places". Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym ni'n annog gosod toiledau changing places a darparu lle ar wahân ar gyfer newid babanod. |
| **Gofod y tu allan** | Meddyliwch am a yw'r lle'n teimlo'n ddiogel ac yn groesawgar i bawb.<br>• A yw'n hawdd llywio trwyddo, gydag arwyddion a lleoedd cefnogol i orffwys a chymryd lloches?<br>• Ydych chi wedi meddwl sut y gallai'r gofod adlewyrchu'r defnyddwyr a'r gymuned ehangach?<br>• A allech chi gyflwyno nodweddion synhwyraidd neu greu lleoedd ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored, chwarae neu dyfu? |

## Cymorth a chefnogaeth

Efallai y byddwch chi am geisio cymorth ac arweiniad pellach gan sefydliadau sydd â phrofiad o gefnogi prosiectau dylunio cynhwysol, fel:

- Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) Dylunio cynhwysol a hygyrch
- Canolfan Amgylcheddau Hygyrch
- Changing Places
- Cyngor Dylunio: Amgylcheddau Cynhwysol
- Llywodraeth Cymru - Canllaw i Reoliadau Adeiladu yng Nghymru
- Sefydliad Tirwedd
- Y Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Ymgynghorwyr Mynediad
- Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (2019)

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pawb - mae llawer mwy o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol a all eich helpu i gynllunio eich dyluniad cynhwysol a'ch hygyrchedd.

## Cysylltwch â ni

Rydym ni yma i helpu. Cysylltwch â'ch Swyddog Ariannu os ydych chi angen help ychwanegol gyda hyn.

Os nad ydych chi'n siŵr pwy yw eich swyddog ariannu, ffoniwch ni ar **0300 123 0735** neu anfonwch e-bost at pawbaile@cronfagymunedolylg.org.uk.

# Atodiad B

## Y Cynllun Arbed Carbon

## Cyflwyniad i gynlluniau arbed carbon

Rydym ni wedi ymrwymo i gefnogi syniadau sy'n helpu mynd i'r afael â newid hinsawdd. Rydym ni'n cydnabod y gall yr allyriadau carbon deuocsid niweidiol (CO)2) sy'n gysylltiedig â datblygu a rhedeg lleoedd a gofodau fod yn uwch na phrosiectau eraill rydym ni'n eu cefnogi. Felly, gofynnwn i chi anfon cynllun arbed carbon atom ni. Dylai hyn nodi sut rydych chi'n bwriadu lleihau effaith amgylcheddol eich cynigion. Gall y cynllun eich helpu i arbed arian hefyd.

Nid oes gennym ni dempled ar gyfer y cynllun gan ein bod yn cydnabod nad oes ateb 'un maint i bawb' ar gyfer yr ystod eang o syniadau yr ydym ni'n eu hariannu. Felly, rydym ni'n gofyn i chi ddatblygu eich cynllun eich hun a disgwyl iddo fod yn gymesur â maint a math eich cynigion. Byddem hefyd yn argymell bod y cynllun arbedion carbon yn rhywbeth rydych chi'n ei ystyried gyda'ch gilydd fel pwyllgor neu gyda detholiad o'ch aelodau a/neu'ch buddiolwyr fel bod grŵp amrywiol o bobl yn edrych ar y cynllun, i ysbrydoli trafodaeth a pherchnogaeth.

## Beth ddylai eich cynllun arbed carbon fynd i'r afael ag ef

Dylai eich cynllun wneud y canlynol, o leiaf:

- dangos sut y byddwch chi'n arbed ynni ac yn lleihau allyriadau carbon
- egluro sut y mae eich prosiect yn cefnogi eich ymrwymiad i leihau ymddygiad carbon isel yn eich sefydliad.

Rydym yn cydnabod na fydd yr ystyriaethau eraill a nodir yma'n berthnasol i bob prosiect.

## Cyngor ar gyfer datblygu eich cynllun arbed carbon

Dyma ychydig o feysydd y gallech chi fod eisiau meddwl amdanynt wrth ddatblygu eich cynllun.

### Datblygu polisi effeithlonrwydd ynni a'r amgylchedd

Mae polisi amgylcheddol ac effeithlonrwydd ynni yn nodi eich nodau, amcanion a gweithdrefnau i annog ymddygiad carbon isel yn eich sefydliad.

Gallai gynnwys pethau fel:

- rheoli gwastraff
- defnyddio cyflenwr gwyrdd ar gyfer eich ynni
- ailgylchu
- teithio gan ddefnyddio mathau carbon isel o drafnidiaeth fel beicio cerdded neu rannu car
- defnyddio tanwydd adnewyddadwy.

### Ystyriwch sut y gallech chi arbed dŵr

Ffordd dda o wneud hyn yw drwy ailddefnyddio dŵr ‘llwyd’ o sinc, baddonau a pheiriannau golchi i fflysio toiledau. Gallech chi hefyd ‘gynaeafu’ dŵr glaw i’w ailddefnyddio trwy osod casgenni dŵr neu fathau mwy eraill o storio dŵr. Gallech chi hefyd ystyried defnyddio ffitiadau fflysio isel ar dapiau toiledau a gosodiadau cyfyngiad llif ar dapiau, yn ogystal â chynnal a chadw rheolaidd i atal gollwng.

### Lleihewch eich galw am ynni

Un o’r ffyrdd gorau o leihau’r galw am ynni yw defnyddio dull ‘ffabrig yn gyntaf’ trwy wella ffabrig eich adeilad. Gyda ffabrig yr adeilad rydym ni’n golygu ei waliau (gan gynnwys ffenestri a drysau), llawr a tho.

Gallai arolwg i asesu cyflwr presennol eich adeilad nodi’r mesurau mwyaf effeithiol i wella ei effeithlonrwydd ynni. Gallai’r rhain gynnwys ychwanegu inswleiddio, gwydro mwy effeithlon a gwell drysau neu reolaethau gwresogi i ganiatáu rannu mannau mewnol.

### Ystyried technolegau carbon isel neu ddi-garbon (LZCs)

Yn draddodiadol, rydym ni wedi creu gwres trwy losgi tanwydd ffosil fel glo, olew neu nwy. Mae’r tanwydd hyn yn cynhyrchu symiau uchel o CO2. Ydych chi wedi ystyried technolegau carbon isel neu ddi-garbon fel pympiau gwres neu baneli solar, i gynhyrchu’r ynni sydd ei angen ar gyfer eich adeilad? Mae’r technolegau hyn yn defnyddio tanwydd adnewyddadwy fel y gwynt, yr awyr neu’r haul.

### Defnyddio ddeunyddiau cynaliadwy

Wrth gynllunio eich prosiect, efallai y byddwch chi’n dewis defnyddio deunyddiau sydd â ‘charbon corfforedig’ isel. Mae ‘carbon corfforedig’ yn golygu’r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy’n deillio o echdynnu, cynhyrchu, cludo a chydosod y deunyddiau. Gall y carbon corfforedig a ddefnyddir wrth adeiladu adeilad fod cymaint â’r allyriadau carbon sy’n deillio o redeg yr adeilad dros ei oes gyfan.

### Gwella eich tirwedd

Mae mannau awyr agored yn rhoi cyfle i ddarparu gwasanaethau, arbed carbon a lleihau llygredd. Mae’n werth cael cyngor arbenigol ynghylch sut y gall plannu coed, llwyni a blodau gwyllt, lleihau dŵr ffo a sŵn, i gyd gyfuno i greu micro-hinsawdd fuddiol o amgylch eich lleoliad neu gymdogaeth. Gallai eich tirwedd helpu gyda gwrthbwyso carbon, tra’n cyfrannu at les eich defnyddwyr.

## Cymorth a chefnogaeth

Efallai byddwch chi'n dymuno ceisio cymorth a chanllawiau pellach gan sefydliadau sydd â phrofiad o gefnogi prosiectau i arbed ynni, megis:

- Adfywio Cymru
- Ynni Cymunedol Cymru
- Sefydliad Ymchwil Adeiladu
- Yr Ymddiriedolaeth Garbon
- Cymdeithas Adeiladu'r Amgylchedd Cydwybodol (AECB)
- Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Sefydliad Tirwedd Cymru
- Ymddiriedolaeth Passivhaus
- Canolfan Ynni Cynaliadwy
- Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND


## Sut i gysylltu â ni

E-bost: pawbaile@cronfagymunedolylg.org.uk

Phone: 0300 123 0735

Gwefan:
Grantiau mawr -
tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-large-grants
Grantiau canolig -
tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-medium-grants

## Connect with us

@TNLComFundWales

@TNLComFundWales

@TNLCommunityFund